**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

9 Tachwedd 2023

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gweithgaredd Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

Yn ein cyfarfod ar 6 Tachwedd 2023 buom yn ystyried y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol uchod. Fel rhan o'r ystyriaeth honno, nodwyd eich ymateb ar 1 Tachwedd i ohebiaeth a anfonwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus mewn perthynas â'r memorandwm.

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus am eglurder ar eich barn, fel y nodir yn y memorandwm, bod cymal 15 y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) yn addasu gallu Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer yn adran 115 o'r Bil Caffael (Deddf Gaffael 2023 erbyn hyn). Yn eich ymateb, rydych yn datgan:

> *"… mae Cymal 15(3)(a) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddatgymhwyso adran 17(5)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Mae Cymal 115(2) o'r Ddeddf Gaffael yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru (neu Weinidog y Goron) anghymwyso'r ddyletswydd o dan adran 17(1) o Ddeddf 1988, i'r graddau y mae'n berthnasol i awdurdod perthnasol.  Gall rheoliadau o'r fath gynnwys dadgymhwyso'r ddyletswydd yn adran 17(1) o Ddeddf 1988 fel y mae'n ymwneud â phob mater anfasnachol (gweler adran 17(5) o Ddeddf 1988) neu'r rhai a bennir (cymal 115(3)(d) yn gymwys). Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf Gaffael sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau contractio sy'n awdurdodau datganoledig yng*

*Nghymru neu sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau neu i ddarparu canllawiau mewn perthynas ag awdurdodau contractio sy'n awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Felly, gellid dadlau bod cymal 15(3)(a) o'r Bil yn newid gallu Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer yng nghymal 115(2) o'r Ddeddf Gaffael. Fodd bynnag, bydd y pŵer sydd wedi'i newid yn parhau i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddatgymhwyso darpariaethau adran 17(1) o Ddeddf 1988 ar gyfer awdurdodau contractio perthnasol yng Nghymru fel y gwelant yn dda.*"

Byddai'n ddefnyddiol i'm Pwyllgor, wrth ystyried y memorandwm, gael eglurder pellach ynghylch sut mae adran 115(2) o Ddeddf Gaffael 2023 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru anghymhwyso'r ddyletswydd o dan adran 17(1) o Ddeddf 1988, ac a ddylai'r cyfeiriad yn hytrach fod at adran 111 o Ddeddf Gaffael 2023. Hefyd, rydych yn cyfeirio at "gymal 115(3)(d)" o Ddeddf Gaffael 2023; fodd bynnag, ymddengys nad oes is-adran (3)(d).

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Gan ei bod yn ofynnol i ni adrodd ar y memorandwm erbyn dydd Gwener 24 Tachwedd, buaswn yn ddiolchgar o dderbyn eich ymateb erbyn 16 Tachwedd 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd